Rheilffordd 200: yn dathlu dwy ganrif o dreftadaeth



The Flying Scotsman, back in service. Credit: ARG_Flickr, via Creative Commons Attribution 2.0 Generic.

Dros y 30 mlynedd diwethaf, rydym wedi cefnogi 600 o brosiectau, o Bo'ness i Basingstoke, sy'n cysylltu pobl ar draws y DU â threftadaeth rheilffyrdd Prydain.

O adfer locomotifau a gorsafoedd, i sefydlu llwybrau cerdded ac arddangosfeydd, mae arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi cefnogi prosiectau sy'n adrodd hanes sut mae teithio ar reilffyrdd wedi trawsnewid cymdeithas. Ers 1994, rydym wedi buddsoddi dros £105 miliwn yn y dreftadaeth bwysig hon, gan sicrhau y gwerthfawrogir ac y gofalir amdani ac y caiff ei chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Agorodd Rheilffordd Stockton a Darlington, y rheilffordd fodern gyntaf, ar 27 Medi 1825. Dathliad un flwyddyn ar draws y DU o effaith fyd-eang teithio ar reilffyrdd – a gysylltodd leoedd, pobl, diwydiannau a syniadau, ac a sbardunodd newid ledled y byd - yw Rheilffordd 200.

I ddathlu'r ddaucanmlwyddiant hanesyddol hwn, ymunwch â ni ar daith drwy bum prosiect sy'n dangos yr amrywiaeth o ffyrdd y mae ein hariannu wedi gwneud gwahaniaeth.

Adfer y Flying Scotsman

Yn ôl yn 2004, helpodd ein grant o £270,000 i adfer y Flying Scotsman eiconig am ddeng mlynedd o weithrediadau prif linell. Fe gefnogodd hefyd yr Amgueddfa Reilffyrdd Genedlaethol i greu arddangosfa a ddenodd ymwelwyr tra roedd y locomotif yno ac ar ei deithiau drwy gefn gwlad.

Y peiriant cyntaf i gyrraedd 100mya yn swyddogol ac i fynd o gwmpas y byd, dychwelodd y Flying Scotsman i wasanaeth yn 2016 ac mae'n parhau felly heddiw, yn atyniad i ymwelwyr o bob cwr o'r byd i'r amgueddfa yng Nghaerefrog, sydd hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn 2025.

Hopetown yn ffynnu yn Darlington

Yn 202 unedol o'r rad



Hopetown, Darlington. Delwedd: Ellen Hunter.

Adeiladwyd Hopetown ar safle hen Amgueddfa Head of Steam yn Darlington. Mae'r amgueddfa, y sied nwyddau a'r gwaith cerbydau i gyd wedi'u hadnewyddu ac maent bellach yn gartref i ofod arddangos, archif a storfa agored. Mae caffi newydd a mynediad gwell ar draws y safle wedi gwella'r profiad i ymwelwyr ymhellach.

Mae ein hariannu hefyd wedi cael effaith ar hyd llwybr 26 milltir Stockton a Darlington, gan gefnogi prosiectau celf ysgol, cerddoriaeth fyw, paentio murluniau a chystadleuaeth ysgrifennu creadigol.

Croeso i bawb yn Amgueddfa Rheilffordd Foyle Valley

Bu'r prosiect i adfer ac ailagor Amgueddfa Rheilffordd Foyle Valley yng Ngogledd Iwerddon wneud pethau'n wahanol.

Galluogodd ein grant o £242,100, a ddyfarnwyd ym mis Mawrth 2020 i Destined – elusen sy'n grymuso ac yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu – i ail-ddychmygu'r hyb treftadaeth hon ar gyfer cynulleidfaoedd newydd.

Ochr y
ryngwe
hyfford



gi

Hyfforddiant yn Foyle Valley Railway Museum. Delwedd: Destined.

Daeth ysgolion, y cyngor lleol a selogion rheilffyrdd ar y daith hefyd, gyda rhaglen weithgareddau boblogaidd a'u cysylltodd â threftadaeth reilffyrdd falch yr ardal.

Tri deg mlynedd o effaith yn Ffestiniog

Rydym yn falch o fod wedi cefnogi un o'r rheilffyrdd treftadaeth a drysorir fwyaf yng Nghymru ers bron i 30 mlynedd.

Dyfarnwyd ein grant cyntaf i gefnogi Rheilffordd Ffestiniog ym 1997 – dyfarniad o £375,000 i adfer a gwarchod cerbydau rholio hanfodol. Yn 2016, helpodd ein grant y tîm yn Ffestiniog i sefydlu rhaglen hyfforddeion sgiliau treftadaeth. Yn fwy diweddar, rhoddodd prosiect Gweithfeydd Boston Lodge, a ariannwyd yn 2019, hwb pellach i gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli yng ngweithfeydd peirianneg hynaf y byd sy'n gweithredu'n barhaus. Mae'r prosiect wedi mynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y sector ac wedi rhoi cipolwg i deithwyr ar hanes hir Ffestiniog.



Yn Ffestiniog, mae trenau ager wedi cael eu hatgyweirio ers bron 200 mlynedd. Delwedd: Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru.

Yn ystod y pandemig yn 2020, roedd yn un o nifer o reilffyrdd y dyfarnwyd arian iddynt ar frys, gan eu helpu i oroesi'r argyfwng a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dathlu Rheilffordd 200 yn Rheilffordd Bluebell

Mae Rheilffordd Bluebell wedi cynnal digwyddiad Rheilffordd 200 mwyaf de-ddwyrain Lloegr. Dros gyfnod o naw wythnos yr haf yma, croesawodd y rheilffordd tua 100,000 o fynychwyr, gan gynnwys mwy na 20,000 o blant ysgol.

Mae ein grant – cyfanswm o £250,000 – wedi cefnogi dwy arddangosfa. Yng ngorsaf Horsted Keynes, adroddodd Rail Present and Future hanes y rheilffordd o'r 1960au hyd at arloesiadau'r dyfodol, ac mae Rail Past Sheffield Park yn olrhain y daith o'r chwyldro diwydiannol ymlaen.



No. 32424 Beachy Head yn Horsted Keynes orsaf. Delwedd: The Bluebell Railway.

Y tu hwnt i ddathliadau Rheilffordd 200, bydd y grant yn gadael gwaddol sylweddol – gan helpu Bluebell i wneud atgyweiriadau hanfodol i adeiladau'r rheilffordd a chreu canllaw y gellir ei lawrlwytho am ddim i ymwelwyr yn y dyfodol ei fwynhau.

Darganfyddwch beth sy'n digwydd yn eich ardal chi ar gyfer Rheilffordd 200, neu dysgwch fwy am sut mae ein hariannu'n gwarchod treftadaeth ddiwydiannol, forwrol a thrafnidiaeth ar draws y DU.



efyd mewn ...

Taith y tu ôl i lenni Boston Lodge ar ei newydd wedd. Credyd: Chris Parry.

Sut mae gwirfoddolwyr yn pweru rheilffordd hanesyddol



Joanna Jarvis , Imogen Watmore, Ashlynn Hudson-Welburn and Harvey Barker holding Pride banner in front of HST loco in Great Hall, National Railway Museum, (NRM) York. © The Board of Trustees of the Science Museum.



m railway history

Un o drennau Trafnidiaeth Cymru

Hwb i fioamrywiaeth mewn gorsafoedd trên yng Nghymru